

## **GALWAD AM BAPURAU**

### **Cynhadledd Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) 2021 #SUSALT21**

### **Addysgu yn ystod Adegau Anghyffredin: Myfyrio ar gyfer y Dyfodol**

Cynhelir 13eg Cynhadledd Dysgu ac Addysgu Flynyddol SALT, #SUSALT21, **ddydd Mercher 7 Gorffennaf 2021**. Cynhelir Cynhadledd 2021 ar-lein drwy Zoom. Os oes gennych enghraifft o brosiect ymchwil addysgegol neu adborth o ymagwedd dysgu ac addysgu newydd y mae'r flwyddyn anghyffredin hon wedi dylanwadu arni, ystyriwch rannu'ch meddyliau, eich syniadau a'ch profiadau.

#### **Thema'r Gynhadledd:**

Addysgu yn ystod Adegau Anghyffredin Myfyrio ar gyfer y dyfodol

Rydym yn eich gwahodd i ddod at eich gilydd i fyfyrion ar eich profiadau o ddysgu ac addysgu ar-lein yn ystod adegau heriol, gan bwysleisio'n benodol ar arferion arloesol a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym bellach yn gwahodd cynigion ar gyfer cynhadledd 2021 a allai gynnwys (heb fod yn gyfyngedig i) heriau a chyfleoedd yn y meysydd canlynol.

- Profiad y myfyriwr/staff;
- Arferion addysgu ar-lein arloesol
- Cynyddu cyfranogiad myfyrwyr ar-lein
- Asesu ac adborth
- Dylunio rhaglenni/datblygu'r cwricwlwm
- Cydweithio â phartneriaid
- Cyflwyno'n hyblyg
- Hygyrchedd

#### **Dyddiad Cau**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw canol nos, **nos Wener, 23 Ebrill 2021**.

## **Ffurf y sesiynau**

Dylid cyflwyno cynigion gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar gyfer un o'r mathau o sesiynau canlynol:

- **Pecha Kucha yn fyw** (rhwng 5-7 munud)
- **Cyflwyniad Byw** (15 munud)
- **Gweithdy Rhyngweithiol** (25 munud)
- **Cyflwyniad poster wedi'i recordio ymlaen llaw** (Bydd y rhain ar gael i'w gweld 'ar gais' ac ar ôl y gynhadledd)

Bydd angen i'ch cynnig ddangos sut mae eich sesiwn yn cyd-fynd â thema'r gynhadledd a bydd yn rhaid iddo fodloni meini prawf y panel adolygu. Dylai brasluniau sesiynau fod yn ddigon manwl i gynrychiolwyr gael syniad o'r hyn i'w ddisgwyl wrth fod yn bresennol, a dylent gael eu hadlewyrchu yn y cynnwys a gyflwynir. Mae'n rhaid i weithdai fod ar ffurf ryngweithiol, arloesol a chreadigol e.e. cwisiau, gwaith grŵp, efelychu ac ymarferion adborth. Gallwch ddarganfod rhagor am Pecha Kucha wrth wyllo'r fideo isod.

## **Fideo Pecha Kucha**

Cofiwch, os derbynnir y cynnig yr ydych yn ei gyflwyno nawr, caiff ei gynnwys yn rhaglen y gynhadledd a bydd cyfranogwyr yn defnyddio hon yn bennaf er mwyn dewis sesiynau i'w mynychu. Noder, gellir cyflwyno sesiynau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## **Meini Prawf Dethol**

- A. Ydy'r teitl a'r crynodeb yn disgrifio'r sesiwn yn glir?
- B. A yw'r sesiwn yn cyd-fynd â thema'r gynhadledd yn glir?
- C. A fydd y sesiwn o ddiddordeb i gynulleidfa'r gynhadledd?
- D. A yw'r cynnwys yn arloesol ac yn ddeniadol?
- E. A yw canlyniadau'r sesiwn wedi'u nodi'n glir?

- F. A fydd y sesiwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol?
- G. A yw'r fformat a'r math o sesiwn yn briodol i bwnc y cyflwyniad?
- H. Ydy'r cynnig yn rhannu data ymchwil neu arferion dysgu, addysgu ac asesu yn ystod y sesiwn?
- I. A yw'r cynnig yn cynnwys y 5 elfen ganlynol: arloesi, hawdd ei ail-adrodd, effaith, tystiolaeth, a chwmpas?

Dylai pob cynnig gyfeirio at brif thema'r gynhadledd, ac fe'i dewisir yn unol â'r meini prawf uchod.

## Canllawiau ar gyfer cyflwyno crynodebau

Rhaid cyflwyno eich crynodeb ar-lein erbyn **canol nos ar 23 Ebrill 2021**. Rhair gwybod ichi am y canlyniad erbyn diwedd mis Mai. Os derbynir eich crynodeb gan y panel adolygu, caiff ei gyhoeddi yn rhaglen ar-lein y gynhadledd a hefyd caiff ei gynnwys ar wefan cynhadledd SALT. Mae'n ofynnol i bob cyflwynydd sicrhau bod ei ddeunydd ar gael i'w rannu yn barod am y gynhadledd. Mae recordio sesiynau'n ofynnol hefyd.

## Beth i'w gynnwys yn eich crynodeb

1. Teitlau, nodau ac amcanion eich sesiwn arfaethedig a sut mae'n cysylltu â themâu'r gynhadledd.
2. Fformat y sesiwn.
3. Y prif awdur a manylion am gyfranwyr eraill (gyda phwysiad).
4. Ni ddylai eich crynodeb fod yn hwy na 500 o eiriau (mae gofyn i bob fformat fod ag uchafswm o 500 o eiriau a dylai gyfleu ffocws eich sesiwn yn gywir).
5. Am enghreifftiau o grynodedbau llwyddiannus sydd wedi cael eu derbyn gynt, gweler [gwefan cynhadledd y llynedd](#).

## Braslun o'r Sesiwn

Hefyd, gofynnir ichi ddarparu Braslun manwl o'r Sesiwn - sef braslun o'r sesiwn sy'n cynnwys sut caiff ei threfnu, dadansoddiad o weithgareddau rhyngweithiol a sut y byddwch yn ymgysylltu â chyfranogwyr (nid yw hyn yn rhan o'r cyfrif geiriau ar gyfer y crynodeb). Nodwch hefyd hyd at dair

neges neu dri chanlyniad allweddol y bydd cynrychiolwyr yn cael o'ch sesiwn (eto, nid yw hyn yn rhan o'r cyfrif geiriau).

## **Geiriau allweddol**

Rhowch hyd at dri gair allweddol, â chomas rhyngddynt, sy'n helpu i ddiffinio cynnwys y sesiwn i'w defnyddio ar wefan y gynhadledd ac yn y rhaglen (nid yw hyn yn rhan o'r cyfrif geiriau).

Sylwer:

Bydd y prif awdur yn derbyn negeseuon gan Drefnydd y Gynhadledd. Gallwch ychwanegu cyfranwyr uniongyrchol, ychwanegol at eich cynnig, ond rhaid eu bod wedi cyfrannu'n helaeth a rhaid datgan y pwysiad o ran hynny. Gellir eich enwi'n gyfrannwr ar gynnig arall, ond efallai ni fydd yr amserlen yn eich galluogi i gael cyfle i fod yn bresennol yn rhagweithiol mewn mwy nag un slot oherwydd gwrthdaro ar yr amserlen.

## **Cyflwyno eich cynnig**

Dylid cyflwyno cynigion am grynodedau erbyn **hanner nos ar 23 Ebrill 2021** gan ddefnyddio'r [ffurflen ar-lein hon](#).

## **Ymholiadau**

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y man drwy [wefan SALT](#). Os oes gennych ymholiadau am y gynhadledd neu am gyflwyno eich cynnig, e-bostiwch: Suzanne Wells (Uwch-ddatblygwr Academaidd) [s.m.wells@abertawe.ac.uk](mailto:s.m.wells@abertawe.ac.uk) neu Rhian Ellis (Datblygwr Academaidd) [r.e.ellis@abertawe.ac.uk](mailto:r.e.ellis@abertawe.ac.uk)